"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD;

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1889. [RHIF 15.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Gonestrwydd	49
Yn mha beth y mae llawenydd y Cristion yn gynnwysedig	53
Y Calaniadur Cymreig	55
Meddyliau ar y pwnc o fodolaeth Duw	56
Ymadael a'r Babi	60
Nodynau Gwasgarog	62
Manion a Hanesion	69
Marwgofion	71

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—S.D., Coedparc; Rev. T.Ll.J.; O.J., Abernantllau; D.W. D., Gellionen.

GWELLIANT GWALL, t. 36. Llinell gyntaf, pennill diweddaf, darllener fel hyn:—"Boed felly im', yn mhell," &c.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

Y CALANIADUR CYMREIG.

Os dygwydd i rai o'n derbynwyr weled fod enwau wedi eu gadael allan, carem glywed oddiwrthynt er gosod y cyfryw yn ein rhifyn nesaf.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1889. [RHIF 15.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—PAUL

GONESTRWYDD.

HAWLIR gonestrwydd fel un o'r rhinweddau moesol, a chydnabyddir yn lled gyffredinol ei bod yn un o addurniadau gorwychaf y cymmeriad cyflawn. Dadleua rhai fod gonestrwydd yn gynneddf foesol yn meddiant pawb dynion i raddau mwy neu lai. Beth bynag am hyny, erys y ffaith nad yw pawb yn rhoddi yr un pwys ar y rheidrwydd o ddadblygu y gynneddf hon. Cyflea gonestrwydd rywbeth llawer iawn eangach nâ pheidio bod yn nyled arianol cyd-ddyn. Hwyrach ei bod yn hawddach ei hadnabod wrth ei heffeithiau nag wrth ei darnodi. Pa fodd bynag, golyga dueddfryd uniawn, uniondeb moesol y galon, ac ymlyniad wrth egwyddor. Fel y mae gwybodaeth gyflawn o rai o'r gwyddonau anianyddol yn cyfleu gwybodaeth o ranau ereill o honynt, felly hefyd y mae mabwysiadu y naill o'r rhinweddau moesol yn rheol bywyd yn rhagdybied ufudd-dod i'r lleill o honynt. Er enghraifft:—Nid ystyrir neb fyddo yn gelwyddog yn onest, am fod hyny yn yspeilio gwirionedd o'i eiddo; ni chyfrifir neb fyddo yn annghyfiawn yn onest, oblegyd fod hyny yn myned ar draws meddiant rhywun arall; tra ni edrychir ar y twyllwr a'r dianrhydeddus ond fel esiamplau o anonestrwydd. Yn y modd hwn cymmer gonestrwydd i fewn bod yn eirwir, yn gyfiawn, yn ddidwyll, ac yn anrhydeddus. Yr ydym eisoes wedi dyfod i gyffyrddiad â'r prif rinweddau moesol; ac os ydyw mabwysiadu yr egwyddor o onestrwydd yn rheol bywyd yn hawlio ufudd-dod llwyr i'r rhai a enwyd, sicr ydyw nas gall bod yn onest lai nâ golygu cyflawniad hollol o holl ddyledswyddau bywyd. O ran hyny, barn rhyw hen dduwinydd oedd, fod bod yn onest at Dduw ac at ddyn yn cynnwys, os nad yr oll, y rhan fwyaf o'r dyledswyddau Cristionogol,

Gydag hynyna o ragarweiniad, nodwn yn

1. *Mai sylfaen gonestrwydd ydyw ffyddlondeb i argyhoeddiad.*—Heb hyn annichonadwy ydyw i onestrwydd ddyfod yn egwyddor lywodraethol cymdeithas, am mai yr hyn ydyw dyn iddo ei hunan ydyw i gymdeithas, ac fod cymdeithas yn cael ei gwneyd i fyny o'r unigol.

> "To thine own self be true,
> And it follows, as the night the day,
> Thou canst not then be false to any man,"

ebai y bardd. Eithriadau pur anaml yn ein mysg ydynt yr enghreifftiau hyny o anwybodaeth hollol gyda golwg ar gylch ein dyledswyddau y naill tuag at y llall. Y rheol, gan hyny ydyw, ein bod yn eu gwybod, ac yn ngwyneb hyn, y mae genym yr oll o'r defnyddiau anhebgorol i wneyd i fyny argyhoeddiad yn unol â'r hwn y dysgwylir i ni weithredu. Yn awr, dywedwn mai gonestrwydd—dim mwy, dim llai—ydyw ufudd-dod trwyadl i holl eirchion yr argyhoeddiad hwn; a pha faint bynag o hono sydd mewn cymdeithas, yn weledig neu anweladwy, ar hyny, a hyny yn unig, y mae cymdeithas yn byw. Dyma ufelai ei hysgyfaint. Pa un ai tywydd teg ynte tywydd garw fydd canlyniad ufudd-dod i'r argyhoeddiad hwn, nid yw o gymmaint pwys. Mae yn wir mai y cwestiwn cellweirus a ofynir yn rhy aml yw, "Pwy sydd yn gwneyd hyn?" ond mae yn bwysig i ni gofio, os yn cadw golwg ar gyfrifoldeb personol, nad yw y cwestiwn yn dal perthynas â'r pwnc. Yr hyn a ofynir gan Gristionogaeth oddiwrthym ydyw, "Pwy a'i gwna?" a chwestiwn difrifol ydyw hefyd i'r neb sydd yn ymawyddu am roddi atebiad sylweddol iddo. Mewn byd lle y chwery llygredigaeth ran mor bwysig, lle y gwrthryfela egwyddor a buddiant a'u gilydd mor fynych, cwestiwn â'i lonaid o anhawsderau, treialon—ie, aberth—ydyw; ac nid oes amheuaeth mai hyn sydd yn cyfrif am y ffaith fod cynnifer o ddynion yn anonest, yn anffyddlawn, i'w hargyhoeddiadau. Ond ni ddylem gymmeryd ein hesiamplau oddiwrth ddynion cyffelyb i'r uchod, eithr yn hytrach oddiwrth ddynion ag sydd, trwy eu ffyddlondeb i'w hargyhoeddiadau personol, wedi cerfio iddynt eu hunain enwau nad yw o fewn gallu amser ei hunan i'w hyspeilio o honynt. Gwelwn oddiwrth hyn y penderfynir gonestrwydd cymmeriad pob dyn oddiwrth ei ffyddlondeb neu ei anffyddlondeb i'w argyhoeddiadau. Fel y mae ffyddlondeb iddynt yn tywys i burdeb a dyrchafiad, felly hefyd y mae anffyddlondeb iddynt yn arwain i lygredigaeth a darostyngiad. Pan ddaw dynion i edrych ar gymmeriad fel peth gwerthfawrocach nâ meddiant y bydd y pwysigrwydd o fod yn ffyddlawn i'w hargyhoeddiadau yn attegu y sylw a haedda. Pan fydd y galon wedi ei llenwi o gariad at y gwirionedd, bydd y "wefus yn bur," a'r geiriau yn meddu sefydlogrwydd cyfammod. Bydd pob twyll, a chelwydd, a rhagrith, wedi diflanu yn nysgleirdeb y gwirionedd, a'r cymmeriad i gyd yn cyrhaeddyd y gonestrwydd a'r unplygrwydd hwnw sydd "gerbron Duw yn werthfawr." Trueni nad ymroddem i goleddu meddyliau uchel a serchogrwydd cynhes at y gwir-

ionedd gyda phobpeth, hyd y nod y pethau lleiaf, oblegyd mae gan y pethau lleiaf fwy o lawer o ddylanwad yn ffurfiad ein cymmeriad yn fynych nâ'r pethau a ystyriwn yn llawer mwy; a gochelwn, fel peth peryglus i'r eithaf, y gogwyddiad lleiaf oddiwrtho. Yna, ni fydd achos i ni betruso y deuwn yn ddynion anrhydeddus, ac y bydd ein dylanwad yn fendith i'r byd. Y cyfryw fydd effeithiau bod yn onest tuag atom ein hunain.

2. *Fod gonestrwydd yn hanfodol i lwyddiant parhaol cymdeithas.*—Un o drefniadau Rhagluniaeth ydyw gwneyd llwyddiant cymdeithas yn ammodedig ar undeb a chydweithrediad ei gwahanol ddosparthiadau. "Mewn undeb mae nerth," ebai y ddiareb. Mor lluosog ydynt yr enghreifftiau o nerth undeb, fel mai cryn anhawsder ydyw dethol y rhai mwyaf pwrpasol o honynt. Os meddyliwn am y gyfundrefn gydweithredol, argyhoeddir ni yn fuan o'i dylanwad iachusol. Y cymdeithasau dyngarol drachefn; pa faint ydyw y daioni a ddeilliodd oddiwrthynt? Trown oddiyma etto at y cymdeithasau gwleidyddol, a phwy a all ddweyd y lles anferthol a effeithiwyd ganddynt? Ac er cymmaint y gall y cymdeithasau uchod ymffrostio ynddo, nid llai bendithiol i'r dosparth gweithiol ydyw y *Trades' Unions* wedi bod, mor bell ag y maent wedi eu cymhwyso. Nid oes achos ynte myned yn mhell i gael eglurebau o nerth a dylanwad iachusol undeb a chydweithrediad ar gymdeithas. Ond pa beth ydyw undeb a chydweithrediad heb onestrwydd? Nid ydynt ond geiriau gwag a chwbl ddiystyr. Gonestrwydd ydyw y sylfaen, undeb a chydweithrediad y goruwchadeiladau. Yr hyn sydd yn gwneyd undeb yn undeb ydyw gonestrwydd, oblegyd i ba beth yr ymunir i ddwyn oddiamgylch ryw amcan pennodedig, oddieithr i bawb fyddo wedi ymuno fod yr un mor ffyddlon, yr un mor onest, i gyrhaedd yr amcan hwnw? O ganlyniad, faint bynag ydyw cymdeithas yn ddyledus i undeb a chydweithrediad, i'r un graddau yn hollol y mae i onestrwydd. Y mae y ffaith fod mwy o ddaioni yn gyrhaeddadwy drwy undeb a chydweithrediad nag sydd wrth fod ar wahan yn sicr o fod yn profi Dwyfoldeb eu gosodiad; ond er hyny, hyd y nod yn yr oes oleu hon, ceir dynion i amheu eu defnyddioldeb. Hwyrach mai yr achos o hyn ydyw fod ymgeisiadau y gorphenol i gydweithredu yn bradychu llawer iawn o anonestrwydd.

Anonestrwydd! Dyma'r cancr mawr sydd yn ysu cymdeithas drwyddi—yn gwneyd bywyd yn bob peth ond dymunol. Yn hytrach na dwyn dynion i gydymdeimlo â'u gilydd yn eu hamgylchiadau cyfyng, y mae anonestrwydd yn eu pellhau, ac yn eu gwneyd yn elyniaethus y naill i'r llall, ac felly, yn cyfranu yn helaeth at dlodi cyffredinol cymdeithas, drwy wneyd un dyn i frwydro ag amgylchiadau y bwriadwyd i lawer wneyd. Y mae'n wir ein bod eisoes wedi cydnabod fod hyny o gydweithrediad, yr hyn sydd, wrth gwrs, yn ddangoseg o'n gonestrwydd ymarferol, yn gynnyrchiol o lawer o ddaioni; mwy efallai o ddaioni drwy fod yn offerynol i ddangos yr hyn ellir wneyd nag sydd eisoes wedi ei wneyd. Ond pan ystyriwn faint y daioni angenrheidiol i wneyd cymdeithas yn llwyddiannus a

dedwydd, tarewir ni â syndod wrth feddwl pa mor bell yn ol yr ydym hyd y nod yn y cyfeiriad hwn. Yn anffodus, yr ydym heddyw yn dystion byw o fodolaeth tlodi angerddol a chalonrwygol; ond y mae darllen rhwng y llinellau, fel y dywedir, yn ein gorfodi—er yn groes i'n hewyllys—i gydnabod fod yr achos o lawer iawn o hono yn gorwedd wrth ein drysau ein hunain, yn syml o herwydd ein hanonestrwydd neu ein hanffyddlondeb i'n dyledswyddau masnachol. Yn naturiol felly, cyhuddir yr oes bresenol o fod yn nodweddiadol o lawer iawn o orfaeliant *(monopoly)*. Un dosparth heb fod yn gwybod beth i wneyd o'u haur a'u harian; dosparth arall â newyn yn dangos ei ddannedd arnynt. Sut y gall fod yn wahanol sydd gwestiwn anhawdd ei benderfynu, pan fyddo unig ammod undeb a chydweithrediad yn eisieu i'r fath raddau. Effaitn anocheladwy anonestrwydd ein cenedl ydyw gorfaeliant. Yn wir, nid yw yr enghreifftiau o orfaeliant sydd yn ein gwlad ond cynnifer o ddadorchuddiadau o'n hanonestrwydd; ac i'n tyb ni, nid yw y gorfaelwyr eu hunain y iota lleiaf mewn ystyr foesol yn fwy cyfrifol am dano na'r rhai hyny ag sydd, drwy ffolineb eu buchedd, yn gwneyd gorfaeliant yn bossibl. Pan gymhwyso dynion eu hunain drwy onestrwydd i gydweithredu, y bydd genym adnoddau i alltudio gorfaeliant a'i dlodi anwahanedig.

Yn mhellach, i'r un graddau ag y mae gorfaeliant yn y byd masnachol yn gof-golofn o'n hanonestrwydd tuag atom ein hunain, y mae annghydraddoldeb y byd gwleidyddol yn bradychu yr un diffyg. Pe ceid gan y werin heddyw i fod yn ddigon gwrol, yn ddigon gonest i'w buddiannau cyfunol neu unedig, gwelid ffurf arall ar bethau cyn pen ychydig amser. Ond yn hytrach nag astudio buddiant personol drwy gyfrwng buddiannau y lluaws, y mae y rhan fwyaf rhywsut yn tori llwybr iddynt eu hunain; a chyhyd ag y parheir i wneyd hyn y mae genym sicrwydd na newidir ffurf presenol pethau. Unig ammod llwyddiant cymdeithas gyda golwg ar fwynhad cyfartal o freintiau, ac o amgylchiadau a'n ceidw uwchlaw angen a thlodi, ydyw cael dynion yn ddigon gonest i efrydu eu buddiannau personol drwy gyfrwng buddiannau y lluaws, ac yn wir, nis gellir edrych ar y neb na wnelo hyn ond fel *traitor in the camp*. Wrth derfynu y pen hwn, nis gallwn lai nag ychwanegu, nad beth ydyw angen presenol cymdeithas, fod meddyginiaeth neu gyflenwad i'r cyfryw yn gorwedd yn nghyfeiriad bod yn onest at ein gilydd.

3. *Fod crediniaeth yn Nuw a sefyllfa ddyfodol yn anhebgorol i onestrwydd cyflawn a thrwyadl.*—Crybwyllasom eisoes fod gonestrwydd yn gofyn aberth ac hunanymwadiad mawr. Eithr i ba beth yr aberthir ac yr hunanymwedir oddieithr i hyny sicrhau gwobr i ni? Yr atebiad, yn ddiau, ydyw—lles cymdeithas. Cydnabyddwn ar unwaith fod y cymhelliad yn un dyngarol ac hyawdl i'r eithaf; ond beiddiwn ddweyd, er ei holl ddyngarwch a'i hyawdledd, nad yw o hono ei hunan yn ddigonol i sicrhau ymostyngiad ac ufudd-dod iddo. Nid yw aberth ond amlygiad o'n syniad o gyfrifoldeb, ac nis gall ein syniad o gyfrifoldeb lai na'n dwyn i gyffyrddiad â Bod, i'r hwn yr ydym yn gyfrifol; a'r cymhelliad cryfaf y gwyddom am dano i fod yn onest ydyw

meddu ar syniadau cywir am dano. Yn ymwybodol o'r ffaith fod y sefyllfa bresenol yn un o brawf, yn un â'r canlyniadau o fyw yma yn ymfwrw i'r dyfodol i'n cyfarfod etto; fod pob aberth o'n heiddo yma i wirionedd, argyhoeddiad, a dyledswydd, medd y Digyfnewid ei Hunan, i gael ei ad-dalu, y mae genym gymhelliad yr holl gymhellion i fod yn onest. Ond o'r tu arall, os nad yw dyn ond cynnyrch ffawd a damwain, paham, ac i ba beth y gofynir iddo aberthu? Unwaith yr argyhoeddir dyn nad oes Bod goruwchraddol yn ymwneyd ag ymdrafodaethau dynion; fod pob gwelliant i ddarfod yn mhorth marwolaeth; nad yw gwirionedd i lwyddo; nad oes i'r gwan warcheidwad; nad oes ad-daliad am aberth i uniondeb a chyfiawnder; nad oes i fywyd dynol un bwriad pellach na'r hyn a welir; fod y bywyd hwn yn bob peth i ni, a marwolaeth yn hollol yn ddifodiant tragwyddol—pwy allai ddesgrifio y fath annhraeth a ganlynai? Mor rhesymol y gallwn obeithio y gwnai deddfau dynol ddal cymdeithas yn nghyd, ac y gallai y ddaear ddwyn ffrwyth, pe y diffoddid yr haul yn yr entrych. Pa beth sydd yn y natur ddynol i enyn parch a thynerwch, os nad yw dyn ond creadur diymgeledd diwrnod? Eillier ymaith bob meddwl am Dduw o'r cyfundeb, a theyrnasai hunanoldeb a chnawdolrwydd yn oruchaf yn mhob man. Chwerddid am ben rhinwedd, dyledswydd, ac egwyddor, fel seiniau cwbl ddiystyr. Disodlai hunanfuddiant ffiaidd bob teimlad o onestrwydd o'r natur ddynol, a deuai dyn mewn gwirionedd yr hyn y mae damcaniaeth atheistiaeth yn datgan ei fod—cydymaith yr anifail! A gawn ni gredu hyn? Byddai mor hawdded genym wadu ein bodolaeth. A Duw genym, ymlidir yr holl anhawsderau a oddiweddant y cyfiawn, y gonest ymaith, fel y gwna oleuni yr haul dywyllwch. Ar yr ammod fod dyn yn ymdrechu i fod yn onest, y mae yn dyfod yn deml i Dduw, yr hwn sydd yn sanctaidd, a pharhad y ddau gyda'u gilydd ydyw yr unig obaith sydd genym y ceir gwaredigaeth oddiwrth bob anonestrwydd.

Rhondda. J. M.

YN MHA BETH Y MAE LLAWENYDD Y CRISTION YN GYNNWYSEDIG?

Llawenydd y Cristion sydd yn gynnwysedig
Mewn tawel ymostwng i 'wyllys y Tad,
Mewn bod ganddo drysor sydd anniflanedig,
Mewn gobaith am fywyd o gyflawn fwynhad.

Mewn cael adnabyddiaeth o'r hwn mae'n addoli,
Mewn darllen, myfyrio, ac estyn ymla'n,
Mewn 'nabod gwirionedd, mewn cyrhaedd goleuni,
Mewn ymdrech i feithrin yr yspryd sydd lân.

Mewn bod ganddo Athraw na wnaeth un camsynied,
  Yr hwn a gyfenwir yn anwyl Fab Duw;
Mewn bod *fel* ei Athraw â chadarn ymddiried
  Mewn Tad Hollalluog tra byddo 'fe byw.

Mewn gweled holl ddeddfau y nef yn gyfiawnder
  Ac annghyfnewidiol trwy oesoedd y byd,
A'r un canlyniadau yn dylyn bob amser,—
  Mae hyn yn llawenydd Crist'nogion i gyd.

Trwy hyn maent yn gweled ffordd hyfryd dedwyddwch,
  A beth sydd yn arwain pob dyn i'r ffordd hon,
Pan fyddo ynfydion yn mhyllau tywyllwch
  Maent hwy mewn goleuni a'u llygaid yn llon.

Mewn peidio gofidio'n ormodol am 'dranoeth,'
  Mewn peidio ymddiried mewn iechyd a nerth,
Na gwisgoedd drud harddwych, na moethau, na chyfoeth,—
  Yn amser marwolaeth bydd rhei'ny ddim gwerth.

Mewn gwneuthur daioni i bawb hyd y gallo,
  Mewn dyoddef yn dawel bob gwawd a sarhad,
Mewn caru ei elyn, os oes gelyn iddo,
  Mewn 'mroi bod yn berffaith, can's perffaith yw'r Tad.

Gwirionedd a sobrwydd, cyfiawnder, trugaredd,
  A serch cyffredinol at holl deulu'r llawr,
Tangnefedd, addfwynder, ffydd, pwyll, ac amynedd,
  Sy'n chwyddo llawenydd y Cristion yn fawr.

Trwy ganol helyntion y bywyd presenol
  Mae'n ymdaith yn wrol â'i galon heb gryd,
Yn nglyn cysgod angau mae'i lygaid yn siriol
  Heb ofni dim niwed er gadael y byd.

Mewn gobaith cyfarfod a byw yn dragywydd,
  Yn nghwmni goreuon yr oesoedd o'r bron,
A phawb o'i anwyliaid yn un teulu dedwydd,—
  Fel yma mae'r Cristion bob amser yn llon.

THOS. HUMPHREYS.

Ai Duw oedd Iesu Grist? Os felly, nid yw yn ymddangos fod yr apostolion yn gwybod hyny. Os oedd, a hwythau yn gwybod hyny, mae yn syn na fuasai rhai o honynt wedi ei wneyd yn bwnc pregeth.

Y CALANIADUR CYMREIG.

MAWRTH.

2, 1684, ganwyd y Parch. Moses Williams yn y Glaslwyn (Llandyssul ?). Claddwyd Mawrth 2, 1742, yn Bridgewater.

2, 1710, ganwyd y Parch. Lewis Rees, Mynyddbach, yn Glynllwydrhew, Glyncorrwg. Tad y Dr. Abraham Rees. Ordeiniwyd ef yn Blaengwrach, Ebrill 12, 1738.

4, 1777, bu farw Edward Richard, yn 63 oed. Awdwr y bugeilgerddi a sylfaenydd yr ysgol yn Ystradmeurig.

5, 1861, m. Parch. John Thomas, Pantydefaid, yn 77 oed.

7, 1832, m. Mr. W. Williams, Penrheol, Merthyr, yn 62 oed. Desgrifir ef fel "One of the earliest, if not the earliest Unitarians in S. Wales." *Ch. Ref.*

9, 1834, Parch. Benjamin Evans, Stockton-on-Tees, yn 89 oed. Brodor o gymmydogaeth Castellnewydd Emlyn. Gwel YMOFYNYDD, 1884.

9, 1888, bu farw y Parch. John Evans, Gellionen. Ganwyd 1835, yn Llanwnen.

10, 1832, y Parch. Thomas Davies, Cefncoed, yn 73 oed. Gwel *Telyn Dewi* a'r YMOFYNYDD.

10, 1746, ganwyd Iolo Morganwg.

11, 1814, m. Parch. Benjamin Maurice, Alcester, yn 67 oed. Brodor o Sir Benfro.

11, 1825, m. Parch. Thomas Davis, mab D.D., Castell Hywel, yn 36 oed.

14, 1768, m. Parch. Owen Rees, Aberdar, yn 51 oed. Y gweinidog Annghydffurfiol cyntaf yn y plwyf. Urddwyd ef yn Nglyn y Pantau, Mawrth 11, 1742.

18, 1759, John Jenkins, tad y Parch. Jenkin Jones, Llwyn, a thadcu Dafydd Llwyd.

18, 1742, ganwyd y Parch. Roger Howell (Beckington, Gwlad yr Haf), yn Nantmoel, Llangyfelach. Aeth i Goleg Caerfyrddin, 1761. Wyr i'r Parch. Roger Howell, Gellionen (?).

18, 1781, m. y Parch. Samuel Davies, Ynysgau. Urddwyd ef yn 1746.

19, 1850, m. y Parch. Benjamin Evans, Panteg, yn 94 oed.

19, 1857, m. Parch. Peter Joseph. Claddwyd yn y Llwyn, y Parch. Dr. Lloyd yn gwasanaethu ar ddiwrnod o eira mawr.

20, 1811, bu farw y Parch. T. B. Evans, Ynysgau, Merthyr. Ganwyd yn Llygadenwyn, Llanybyther, 1787. Dywed y Dr. Thomas Rees am dano, "Pe buasai yn llwyrymwrthodwra diodydd meddwol, na fuasai nemawr o weinidog yn Nghymru yn fwy defnyddiol nag ef."

21, 1800, m. Parch. Lewis Rees, Mynyddbach. Yr oedd ei dad yn fab i offeiriad Penderyn.

22, 1850, m. Mrs. Elizabeth Davis, Leicester; gweddw y Parch. Thos. Davis uchod, a merch y Parch. Posthumus Lloyd, Coventry.

23, 1865, m. Parch. David Beynon, St. Clears, yn 70 oed.
24, 1846, m. y Parch. D. Evans (Daniel Ddu), yn 54 oed.
24, 1878 Mr. Thomas Thomas, Pantydefaid. Un o orthrymedgion Sir Aberteifi. YMOFYNYDD, 1878, t. 79.
25, 1727, ganwyd y Parch. John Williams, Ll.D., yn Llanbedr. Llyfr-gellydd y Dr. Williams, awdwr o gryn fri, a chyfaill D. Llwyd, Llwyn. Bu farw Ebrill, 1798, yn 71 oed.
25, 1882, m. John T. Jones (Eiddil Cynon), yn 62 oed.
26, 1716, ganwyd Ioan Siencyn, o Aberteifi. Awdwr marwnad D. Llwyd. M. 1796.
27, 1848, m. W. E. Jones (Cawrdaf), yn 52 oed.
30, 1777, m. y Parch. Posthumus Lloyd, Coventry, yn 46 oed. Brawd D. Llwyd, Llwydrhydowen.

GWELLIANTAU AC YCHWANEGIADAU.

Ionawr 2, 1781, y claddwyd y Parch. Mr. Phillips.
,, 9, 1785, y Parch. D. P. Davies, a anwyd yn y Storws Wen, Cei Newydd.
,, 12, 1695, derbyniwyd Jenkin Jones, Llwynrhys, yn aelod yn y Cilgwyn. M. 1725.
,, 28, 1744, bu farw y Parch. John Kenrick, o Wynn Hall, Ruabon, yn 61 oed.
Chwefror, 1800, bu farw y Parch. Daniel Phillips, Pwllheli, yn 84 oed. Mab i'r Parch. Daniel Phillips, a fu farw 1722, a thad y Dr. Nathaniel Phillips, gweinidog yr Undodiaid yn Sheffield. Yr oedd wyrion yr olaf yn farsiandwyr enwog yn Manchester hyd yn ddiweddar.
,, 15, 1867, m. Walter Coffin, Ysw., yn 62 oed.

I.—MEDDYLIAU AR Y PWNC O FODOLAETH DUW.

Y MAE yn ddiamheu nad oes yr un pwnc wedi cael cymmaint o sylw y meddwl dynol yn mhob oes o'r byd a'r pwnc o fodolaeth Duw. Yr oedd yr anwariad yn ei gyflwr iselaf o ddadblygiad ag y gwyddom ni am dano, wrth edrych ar y byd rhyfeddol oddiamgylch iddo, a gofyn o ba le y daeth, yn ateb, "oddiwrth Dduw." Ac y mae y dyn dad-blygedig yr oes bresenol, os yn hollol ddiragfarn, yn ateb yn yr un modd. Gellir dweyd fod pob dyn ar rhyw adegau yn troi ei feddwl at y pwnc hwn; ac y maent yn gwneyd hyn yn fwy a mwy yn barhaus fel y mae'r byd yn myned yn y blaen. Ac er y dywedir gan rai fod y wybodaeth uwch y mae dynion wedi ei chyrhaedd am ddeddfau natur yn gwneyd i ffwrdd a'r angen am Dduw mwyach, etto, nid yw y dydd-

ordeb yn y pwnc yn lleihau, ond yn hytrach yn cynnyddu. Er gwaethaf fod darganfyddiadau diweddar wedi dwyn syniadau gwell i feddyliau dynion yn nghylch y bydysawd, nid ydynt wedi gwneyd dim i leihau y tueddiad sydd yn nghalon dyn i edrych i fyny at rhyw feddwl anfeidrol fel achos dechreuol pob peth. Ond er hyny, y mae yn iawn fod pob dyn yn chwilio ac yn edrych i fewn i bob pwnc a ddygir ger ei fron, a cheisio cael sail gadarn i'r hyn a greda. Ac y mae yn iawn hefyd, os na fydd yr ymchwilydd yn cael ei foddloni yn y profion a ddygir ger ei fron o wirionedd unrhyw osodiad, i'w wrthod,—yn enwedig os na all gael allan trwy ei ymchwiliad, resymau cryfach a gwell dros y cyfryw osodiad; ac, y mae yn iawn i bob dyn, os nad yw yn gallu canfod rhesymau digon cryf dros gredu yn modolaeth Duw, i wrthod credu ynddo. Ond dylai pob dyn yn gyntaf gael ei foddloni yn nghylch annigonolrwydd y rhesymau a ddygir ger ei fron, ac o'i anallu ef i gael allan rai cryfach. Y mae un peth yn fwy pwysig na chredu yn modolaeth Duw, sef, bod yn ffyddlon i'r goleuni a'r wybodaeth sydd ynom.

Y gofyniadau sydd yn blino llu o ddynion ieuainc (os nad dynion o bob oed, hefyd), yn y dyddiau presenol yw, *a* oes Duw, neu, ynte, nad oes? A ydyw gwyddor yn gwneyd i ffwrdd a'r angenrheidrwydd am achos dechreuol, neu nad yw? Nid yw dynion yn cael eu blino mwyach yn gymmaint gan y pwnc o bersonoliaeth ag ydynt gan y pwnc o fodolaeth Duw. Os gall dynion gael allan *fod* Duw, yna, y maent wedi cael gafael yn yr hyn sydd yn gwneyd eu meddyliau yn dawel; y maent wedi cael gafael yn yr un peth pwysig. Ac nid oes yr un dyn ieuanc, a gredaf, sydd yn meddwl ac yn chwilio i fewn i'r pynciau mawr sydd wedi bod yn tynu sylw y byd am gymmaint o ganrifoedd, nad yw wedi cael ei flino gan amheuon mewn cyssylltiad a'r pwnc mawr hwn. Ac nis gellir dysgwyl llai; ymddengys fel pe bai fod rhaid i ddyn fyned trwy gyfnod o amheuaeth lem cyn y gall feddu ffydd gadarn a gwresog. Pa fwyaf o ffwdan ac anhawsder a gawn i gyrhaedd unrhyw wrthddrych, mwyaf anwyl yw'r cyfryw wrthddrych yn ein golwg; nid ydym yn foddlon gollwng ein gafael ynddo heb ymdrech. Ac fe ymddengys fod hyn yn wir gyda golwg ar y gred mewn Duw. Pa fwyaf o anhawsderau ydym wedi gyfarfod a hwynt wrth chwilio am dano, os y gallwn orchfygu'r anhawsderau, y mae'r gred a gynnyrchir gan yr ymdrech i'w gorchfygu, fel rheol, yn un gadarn a sefydlog. Felly, ymddengys fel pe bai fod cyfnod o amheuaeth yn angenrheidiol cyn y dewir i feddiant ar ffydd gadarn mewn Duw. Y mae'r gosodiad hwn, a gredaf, yn cael ei wireddu gan brofiad cyffredinol y dosparth meddyliol o'r hil ddynol yn mhob oes. Ac nid gwiw, gan hyny, i ni gauad ein llygaid ar y ffaith hon; ac fe wna pob dyn doeth wneyd ei oreu i symmud ymaith yr achosion sydd yn cynnyrchu amheuaeth, ac nid eu gadael yn ddisylw; ac, fe ddylid dangos mwy o gydymdeimlad at y sawl sydd yn cael eu blino gan amheuon nag a ddangosir yn gyffredin; a'u cynnorthwyo, os yn bossibl, i orchfygu eu anhawsderau.

Y cwestiynau mawr y mae genym i'w chwilio allan yw, *a* oes Duw? A oes rhywbeth yn natur oddiamgylch i ni, ac yn nghyfansoddiad dyn, ag sydd yn tueddu i gadarnhau y gosodiad fod rhyw feddwl a gallu o'r tu cefn i'r cyfan oll? Os y gellir cael atebion cadarnhaol i'r gofyniadau hyn, yna, nid yw ein syniadau am y cyfryw Dduw ond peth ailraddol o ran ei bwys. Gallant fod yn isel—mor isel a llawer o syniadau y cenedloedd paganaidd, neu hyd y nod llawer o'r syniadau am dano a geir yn yr Hen Destament; neu, ynte, gallant fod yn syniadau goruchel—yn syniadau ydynt yn cydfyned a gwybodaeth ac a dadblygiad goreu yr oes. Os y gallwn gael allan resymau digonol i'n gwneyd i deimlo yn sicr ac yn ffyddiog fod Duw *yn bodoli*, yna, byddwn wedi cael allan yr hyn sydd yn wir bwysig mewn cyssylltiad a'r pwnc, a gallwn ffurfio ein syniadau am dano yn ol y wybodaeth a'r goleuni sydd ynom.

Yn awr, yn y lle cyntaf, wrth edrych oddiamgylch, ar holl weithredoedd natur, yr wyf yn canfod trefn yn argraffedig ar bob peth. Y mae'r planedau wedi eu gosod yn eu cylchoedd priodol, ac y maent yn myned yn y blaen ar eu taith trwy'r eangder heb syflyd dim allan o'u lle, ac heb achosi yr un anrhefn. Y mae'r haul yn codi ac yn machlud, gan beru fod dydd a nos, a hyny yn rheolaidd; a'r lleuad, yr hon sydd wedi ei gosod i lywodraethu ar y nos, yn cyflawnu ei hamcan yn ddiball. Y mae'r un fath gyda'r llu planedau ereill, ac yr wyf yn cael fy nhueddu i ofyn, ai damwain yw fod y pethau hyn felly? Y mae'r un fath, drachefn, ar y ddaear lle yr ydym yn byw. I ba le bynag y trown ein golygon yr ydym yn canfod trefn. Y mae'r holl elfenau wedi eu trefnu, y mae'n amlwg, er gwasanaethu rhyw amcan neillduol. Y mae'r ffermwr yn cuddio'r eginyn yn y ddaear yn y gwanwyn, gan deimlo yn ffyddiog yn neddfau natur; ac nid yw byth yn cael ei siomi. Y mae'r ddaear yn dwyn allan ei ffrwythau yn rheolaidd a diffael y naill flwyddyn ar ol y llall er cynnaliaeth pob creadur byw. Y mae'r blodeuyn bychan prydferth yn ymagor bob blwyddyn ar ochr y clawdd; y mae'r coedydd yn cael eu gwisgo a dail; ac yn mhellach na hyn, pe baem ddim ond yn meddwl am adeiladwaith cywrain y blodeuyn a'r goeden, y mae'r un ffaith yn dod i'r amlwg, sef, fod trefn yn amlwg yn yr oll. Ac yn mhellach na hyn etto, nid yn unig yr ydym yn cael fod trefn yn adeiladwaith y blodeuyn, ond yr ydym yn cael fod yr un drefn i'w chanfod yn yr holl fyrddiynau blodau sydd yn britho ein meusydd, ac fod adeiladwaith pob blodeuyn o'r un dosparth yr un peth. A gallaf ofyn unwaith etto, a ydyw yn bossibl mai damwain yw hyn oll? O herwydd y mae yn dod i hyn: y mae yn rhaid i ni gyfaddef fod rhyw gynllunydd ac adeiladydd o'r tu cefn i bob peth, neu ynte, mai damwain yw fod pob peth yn natur fel yr ydym yn eu gweled heddyw. A gellir gofyn i bob dyn rhesymol a diragfarn, Pa un o'r ddau gasgliad hyn sydd yn fwyaf rhesymol? Pa un o honynt sydd yn fwyaf cydfynedol a ffeithiau?

Nis gallaf edrych ar y corff dynol heb ganfod yr un peth, sef, trefn. Ac heblaw ein bod yn canfod trefn yn adeiladwaith ein cyrff, yr ydym yn cael fod mewn dyn gydwybod, ewyllys, a meddwl. Y mae rhai yn

amheu pa un a oes y fath beth ag a elwir genym ni yn gydwybod mewn dyn neu peidio. Dywedant mai ffrwyth profiad neu arferiad ydyw. Y mae yn wir nad yw barn y gydwybod bob amser yn un y gellir ymddibynu arno, a hyny fel y credaf am nad yw wedi cael ei dadblygu yn briodol, neu wedi cael perffaith chwareu teg yn ffurfiad y cyfryw farn. Ond etto, wrth edrych yn ol dros hanes yr hil ddynol yn y gorphenol, wrth edrych ar ymddygiadau dynion yn y gorphenol, ac wrth edrych i fy mynwes fy hun, nis gallaf gauad fy llygaid i'r ffaith fod yna rywbeth yn y fynwes ddynol yn llywodraethu ymddygiadau beunyddiol dyn. Pan yr wyf wedi cyflawnu hyd y nod rhyw weithred fechan allan o le, y mae yna rywbeth o'm mewn yn condemnio. Y mae hyn, a gredaf, yn brofiad cyffredin. Ac nis gallaf ddod i'r un casgliad arall ond fod y *rhywbeth* hwn wedi cael ei blanu yn y natur ddynol. Gallwn ei alw wrth yr enw a fynom. Y ffaith sydd yn bwysig, ac nid yr enw. Ac y mae'r ffaith hon yn peru i mi i ofyn, O ba le y daeth y gallu hwn ? Ac yr wyf yn methu gweled yr un ffordd i ateb ond trwy ddweyd mai llais Duw yn siarad yn y galon ydyw. Ac onid yw y casgliad hwn yn un hollol naturiol a rhesymol? Gellid ymhelaethu yn yr un modd gyda golwg ar yr ewyllys a'r meddwl dynol.

Y mae y pwnc hwn yn un helaeth ; y mae yn ddihyspydd. Nid ydys ond megys wedi cyffwrdd a'r ymyl hyd y nod pan wedi treulio oes hirfaith i'w astudio. Ond os y gallwn gael allan i foddlonrwydd i ni ein hunain fod Duw yn bodoli, yna, byddwn wedi cael allan y peth mwyaf pwysig. Ac ar ol treulio llawer awr i fyfyrio ar y pwnc mawr hwn, yr wyf wedi dod i'r casgliad hwn : fod yr holl fydysawd yn amlygiad o'r gallu sydd yn goruwch-lywodraethu yr oll. Mae pob creadur byw, pob pelydr o oleuni, pob deilen sydd yn tyfu ar y goeden, yn sicr o ddweyd rhywbeth wrth bob ymchwiliwr gonest a didwyll am dano—yn sicr o ddweyd wrtho, o leiaf, ei fod yn bodoli, os nad dim yn rhagor. Y mae syniadau dynion am Dduw, mae'n wir, yn gwahaniaethu i raddau mawr. Ond nid yw hyn ond peth y gellid ei ddysgwyl, gan nad yw galluoedd a chyrhaeddiadau dyn ar y goreu ond meidrol a chyfyngedig. Y mae darganfyddiadau a chynnydd gwybodaeth a dadblygiad y meddwl a galluoedd dyn yn tueddu i buro a choethi y cyfryw syniadau. Os y ceidw dynion eu meddyliau yn hollol agored i dderbyn pob datguddiad newydd gan nad o ba le bynag y daw, yna, deuant bob yn dipyn i fynwesu syniadau am dano teilwng o honynt hwy eu hunain a theilwng o Dduw hefyd.

Nid yw y Duw Celi y sonia y Cymro gymmaint am dano ond yr un â *Deus Coeli*, Duw'r Nefoedd, a addolid gan ein tadau yn y wlad hon, pan oedd y gwasanaeth crefyddol yn cael ei gario yn y blaen yn y Lladin. Ol-feddwl, neu *afterthought* yw ei gyssylltu à *Celu* neu *Celydd*, gan awgrymu yr hyn a eilw y Sais yr *Unknowable*, yr Anwybodadwy.

Pan gwrddoch â themtasiwn, peidiwch aros i siglo llaw ag 'e, onide cewch eich arwain ganddo lle y myn.

YMADAEL A'R BABI.

YSTORI MAM.

"Y TRYDYDD diwrnod oedd hi ar ol angladd fy ngwr," ebai y weddw, "ac yr oeddwn wedi fy syfrdanu gymmaint gan ei farwolaeth ddisymwth, fel nas gallwn wneyd dim ond eistedd a myfyrio a cheisio sylweddoli a oedd hi'n bossibl ei fod wedi marw.

"Gwelai hyd y nod y babi ei eisieu, a deuai a safai ger fy nglin, gan waeddi 'Dada, dada,' nes y tybiwn y buasai fy nghalon yn tori. Yr oedd y ddau blentyn hynaf yn yr ysgol; yr oedd y lleill allan yn chwareu; felly, yr oeddwn yn hollol wrthyf fy hun.

"Gyda'r gair, gyrodd Mr. a Mrs. Lloyd at y drws yn eu cerbyd drudfawr. Nid oeddynt yn byw yn bell oddiwrthym, a hwy oeddynt ein cymmydogion mwyaf cyfoethog. Wedi i mi eu gwahodd hwynt i fewn, a sychu ychydig ar fy nagrau, gwelwn eu bod mewn cyfyngder sut i ddechreu yr ymddyddan; ond yr oedd Charlie wedi rhedeg oddiwrthyf, a safai wrth glin y foneddiges, a chan bwyntio at y gemau gwerthfawr oeddynt ar ei bron, dywedai, 'Pert, pert,' yn ei ddull plentynaidd. Tynodd y foneddiges un o honynt i ffwrdd, a rhoddodd ef iddo, gan ddweyd, 'Ai ddoi di i fod yn blentyn bach i mi, Charlie?'

"'Na, na: all mam ddim o'i hebgor,' meddwn, gan ei dynu oddiwrthi braidd yn drwsgl, 'rwy'n ofni.

"'Fy nghyfeilles anwyl,' dechreuai Mr. Lloyd, "gofynodd holl ymdrechion eich gwr i ennill bywioliaeth i chwi; sut yr ydych yn gobeithio gwneyd hyny hebddo?'

"'Yr ydym yn cynnyg,' ychwanegai ei wraig, 'i gymmeryd at y gwanaf o'r rhai bychain—i roi iddo bob mantais ag a roisem i'n plentyn ein hunain; ac yn ddiau, chwi welwch fod llaw Duw yn hyn—ei fod yn bwriadu eich helpu drwom ni.'

"Nid oes angen dweyd wrthych pa c'yd y darfu i mi wrthsefyll eu holl ddadleuon; ond o'r diwedd, cydsyniais i ystyried y mater. Yn mhen deuddydd, daethant i 'mofyn fy ateb. Yn credu y buasai er lles i'r plentyn, boddlonais i ymadael ag ef. Pan yr ês i'w wisgo cyn myned, yr oeddwn bron a 'difaru addo. Oedwn uwchben pob dilledyn wrth ei roi am dano, a phlethwn bob cudyn drosodd a throsodd cyn y gallaswn ei gael i'm boddhau, a chusanwn ei ysgwyddau bychain, gwynion, nes yr oeddent fel y rhos. Ond o'r diwedd yr oedd yn barod, a thybiwn na welais I erioed 'mo hono mor brydferth; yr oedd yn llawn bywyd, oblegyd yr oedd yn ddigon hen i wybod beth oedd ystyr 'myn'd ar gefn ceffyl,' a churai ei ddwylaw, achwarddai yn uchel wrth wel'd y ceffylau yn ymbrancio o flaen y ty.

"Ar ol dod yn ol i'r ty, y peth cyntaf y disgynodd fy llygad arno oedd ei gryd. Taflais fy hun arno, ac ocheneidiais—ïe, wylais yn chwerw-dost. Wedi'n daeth y brofedigaeth i ddweyd yr holl wir wrth y plant. Nid ymddangosai un o honynt yn foddlon, a theimlwn fod y baich trymaf ar ol pan ddeuai y ddau blentyn hynaf o'r ysgol. Yr oedd braw arnaf i gwrdd â nhw, yn enwedig Willie: yr oedd ef fel ei

dad—mor dawel a didwrw yn allanol, ond yn cuddio dan ei ddifrawder allanol y teimladau cryfaf, dyfnaf. Ond aeth y plant ereill i'w cyfarfod wrth ddod adref, a ches fy siomi ar yr ochr oreu wrth wel'd y modd y darfu i'r hynaf dderbyn y newydd. Ymddangosai ei fod yn teimlo i mi weithredu er y goreu, ac y dylai guddio ei dristwch er fy mwyn I. Yr oedd yn fwy ystyriol o'm dedwyddwch, yn fwy hynaws nag erioed, ond ei fod yn llonydd ac yn ddifrifol iawn.

Aeth y diwrnod heibio, fel yr â y diwrnod hiraf, o'r diwedd, a daeth yn amser myn'd i'r gwely. Yr oeddwn wedi dwyn Willie i gysgu ar y llawr gerllaw i mi oddiar marwolaeth ei dad. Cysgai y plant ereill ar y llofft uwch ein penau. Pan y dechreuais orwedd, yno yr oedd y gobenydd gwag. Yr oedd y babi bob amser wedi gwasgu ei wyneb bychan boch-goch mor agos at fy ngwyneb I ag y medrai, a chysgu ag un law fechan wresog ar fy ngwddf. Daeth fy holl hiraeth yn ol drachefn, pan feddyliais am dano. Cododd Willie maes o law, a dywedodd yn ddifrifol, "Mam, am Charles yr ydych yn llefain, on'te ?"

"Ie," meddwn, "mi wn fod y cyfan er y goreu; ond O! mae mor galed i 'madael ag e' ?"

"Mam," meddai'r plentyn, "pan fu 'nhad farw, gwyddem fod y cyfan er y goreu, am i Dduw ei gymmeryd oddiwrthom ni. Ond yr wyf wedi bod yn meddwl, er pan y gorweddais, sut mae Charles bach yn siwr o fod yn llefain am danoch, a sut y darfu i Dduw ei roi i ni i'w garu a'i gadw, ac yn awr, chwi a'i rhoisoch ef ymaith. Pe bai Duw wedi bwriadu iddo fod yn fabi Mr. a Mrs. Lloyd, oni fyddai iddo ei roi iddyn' nhw ar y cynta'."

Cariai geiriau y plentyn fwy o bwys nâ holl ddadleuon fy nghymmydogion cyfoethog. Wedi ystyried enyd, dywedais,

"O pe gallwn ei gael 'nol, ni chawsai byth fyn'd ymaith wedi'n, nad pa mor dlawd y buasem." "Mam, dim ond hanner milldir sydd yn groes i'r caeau, a dyn' nhw ddim yn myn'd i'r gwely yn nhŷ Mr. Lloyd nes bo hi'n hwyr? Gadewch i ni fyn'd i 'mofyn Charlie. Mam, 'rwy'n tybio y clywaf ef yn llefain 'nawr."

Yn cael fy annog gan ymbiliau y plentyn, a chan hiraeth fy nghalon fy hun, cydsyniais. 'Rwy'n meddwl na cherddais hanner milldir mor gyflym yn fy mywyd, ac ni siaradodd yr un o honom nes cyrhaedd y plâs. Yna, arosasom enyd i gael anadl, ac yn sicr ddigon, gallasem glywed y babi yn 'screchain nerth ei geg. Aethom at ddrws yr ystafell gefn, a churasom. Edrychasent fel pe wedi hanner dychrynu pan wel'sant pwy oedd yno, ond gwahoddasant ni i fewn yn foesgar. Cerddai mamaeth newydd a'r plentyn yn ol ac yn mlaen i'r ystafell, gan geisio ei ddistewi. Yr oedd Mrs. Lloyd wedi blino ei hun, ac wedi ymdaflu ar y *sofa*. "Dere at mam," meddai Willie, a daeth a'r un bychan i mi.

Sut yr ymglymai wrthyf, yn och'neidio ac etto'n gwenu wrth wel'd ei fod yn fy mreichiau.

"'D 'alla' I byth 'madael ag e'," meddwn o'r diwedd, pan ddaeth fy llais yn ddigon clir i lefaru, "Rhaid i chwi fy ngadael ei ddwyn adref."

Digon tebyg yr ystyrient fi y ffolaf o wragedd, ond cyn pen hanner awr cychwynasom adref, y fi yn cario'r babi, a theimlwn y gallaswn ei gario byth.

Nid oes eisieu i mi ddweyd wrthych y llawenydd oedd gyda'r plant pan wel'sant y babi yn y gwely boreu dranoeth.

Pan ddaeth y peth yn wybyddus, yr oedd llawer yn fy meio, a darfu i fy nghymmydogion cyfoethog attal llawer o ffafrau a wnaent, digon tebyg, roi i mi, oni bai, yr hyn a alwent hwy, fy ffolineb. Ond dywedai llawer o wragedd tlodion fel fy hunan, fy mod wedi gwneyd yn gall. Cawsom lawer o helbulon, heb gymmaint a chrwstyn o fara yn y tŷ lawer tro, ond bu ein holl galedi yn foddion i'n c'lymu yn nes wrth ein gilydd. Trodd fy mhlant allan yn fendithion i mi. Priododd y rhai ereill yn mhen amser, a gadawsant fi; ond tarian fy hen ddyddiau, yr hwn, trwy ei ddiwydrwydd, a roddodd i mi y cartref cyssurus hwn, ni 'madawodd efe erioed â mi oddiar y dydd y rhoddais I ef ymaith.

NODYNAU GWASGAROG.

ADGOF UWCH ANNGHOF.

William Williams (*Carw Coch*). *Bu farw Medi* 26, 1872, *yn* 64 *oed.*

Ein hanwyl "Garw" sy'n huno—yn angeu,
Mawr yw'n hing am dano;
Glyn i ddyn tra gloyw oedd o,
Yn gyfaill gwerth ei gofio.

Awen wech, goeth, ymdrechgar—a gafodd,
Yr hen gyfaill gwladgar;
Diwyd ei fywyd di fâr
I ddiosg trais y ddaear.

Rhyddfreiniwr o'i wraidd fu'r enwog—gymmrawd,
O gamrau tra rhywiog;
Dyn glew heb fuchedd dan glog,
A'i araeth yn un eiriog.

Ein serchog gar oedd am wared—y byd
O bydew caethiwed;
Yn groch pob gwyrgam ei gred
Gurai'n wyneb agored.

Ei safle yn ddisyflyd—a roddai
Ar addysg y bywyd;
O'i fron gweddiai, a'i fryd
Ar iddo ei gyrhaeddyd.—*Cynonwyson.*

Yn ol y diweddar Mr. Henry Richard, A.S., mae mwy nâ dwy filiwn o bobl wedi trengu mewn rhyfeloedd rhwng cenedloedd Cristionogol yn ystod yr hanner canrif diweddaf. Y golled mewn arian, dinystr mewn meddiant, mewn ansefydlogi masnach, ac mewn ffyrdd ereill, efe a esyd i lawr yn y swm anferthol o £3,000,000,000. Mae ar yr adeg bresenol 12,000,000 o wyr wedi eu dysgu i ryfela yn Ewrop, a chyst y byddinoedd mewn pob dull £500,000,000 y flwyddyn i'r gwahanol wledydd; ac yn ychwanegol at y draul gysson hon, mae y gwledydd hyn, rhwng 1848 ac 1879, yr yspaid o un flyneddarddegarhugain, wedi myned i ddyled, bron yn gyfangwbl trwy ryfel a pharotoadau i ryfel, o'r swm annghredadwy o £2,624,000,000.

Y DEGWM.

Ar yr adeg bresenol pan mae "swn rhyfel yn y gwynt" yn mhob cwm ac ar bob llechwedd o hen Gymru gyda golwg ar y Degwm, dichon nad annyddorol i'n darllenwyr llai cyfarwydd fyddai ychydig ffeithiau ar y pwnc, wedi eu lloffa hwnt ac yma, yn nghwrs ein myfyrdodau brysiog ar y mater. Y ffaith gyntaf a gawn nodi yw hon. Ni wyddai y pedwar can' mlynedd cyntaf o'r cyfnod Cristionogol ddim am Ddegwm. Yn yr hanner ddwyreiniol o Gred ni thalwyd ef erioed, ac ni thelir ef heddyw. Ond ffynai y farn ei bod yn ddyledswydd ar bob Cristion i neillduo y ddegfed ran o'i gyflog flynyddol at amcanion elusengar a chrefyddol—ac aeth y farn hono yn fuan yn athrawiaeth. Ac er tua diwedd y chweched ganrif dysgai athrawon Cristionogol yr Eglwys Orllewinol, b'le bynag yr elent, mai eu dyledswydd a'u braint oedd rhoddi y ddegfed ran o'u heiddo blynyddol at ddybenion duwiol. Ar y cyntaf, cofier, cynghorid ac annogid pobl i dalu. Wedi'n, gorfodid nhw, ar berygl cosp ysprydol.

Yn awr mae dros dair miliwn a hanner o arian yn cael eu neillduo bob blwyddyn o drysorfa y Degwm tuag at gynnal yr Eglwys Sefydledig. Cofied y darllenydd fod pob miliwn yn cynnwys *deg cant o filoedd.* A ydyw gwasanaeth yr Eglwys Wladol yn werth yr hyn a delir am dano? Dywed un hen ysgrifenydd fel hyn: Os eir i chwilio y cof-lyfrau, rhaid talu; os eir i gyssylltu deuddyn mewn glân briodas, rhaid talu; os eir i gladdu y marw, rhaid talu. Y mae treth ganddi ar bob peth, byw a marw; treth ar gnwd y tir, treth ar ddefaid ac wyn, treth ar foch, treth ar wyddau, treth ar ieir, treth ar wenyn, treth ar gladdu, treth ar briodi, treth ar ddynion (offrwm y Pasc), a threth ar famau babanod; ïe, trethir hyd y nod angeu ei hun, os bydd eiddo bydol yn cael ei adael ar ol. Mae Cobbet yn rhoi manylion achos o erlyniaeth am beidio talu degwm personol, yr hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn 1833. Hawliai Francis Lundy, rheithior Lockington, yn swydd York, 4s. 4c., oddiwrth Jeremiah Dodsworth, sef y degwm ar ei huriau yn ystod y flwyddyn flaenorol, y rhai oeddynt yn £13. Nid

yn unig hawliai hwynt, ond cafodd Dodsworth ei daflu i garchar am dri mis am nas gallasai dalu.

Mae'n resyn meddwl fod trigolion y wlad hon, ag ydynt mor Annghydffurfiol ac mor ryddfrydig yn eu barn boliticaidd, yn gorfod talu at gynnaliaeth dosparth sydd gymmaint allan o gydymdeimlad ag ehediadau uwchaf y genedl. Nid oes gan Doriaeth mwyaf dallbleidiol y wlad well cefnogwyr nâ'r offeiriaid sydd yn cael eu talu gan y Degwm. Nid oes un dosparth fel hwy wedi ymgynghreirio mor bendifaddeu i wrthwynebu pob diwygiad yn yr amser a aeth heibio, yn enwedig diwygiadau ag oeddent yn tueddu i ychwanegu at gynnrychiolaeth a gallu'r werin. Y seddau Toriaidd mwyaf sicr yn Nhy y Cyffredin yw seddau yr aelodau dros Brif Ysgolion Rhydychain a Chaergrawnt, oblegyd yno gwneir i fyny fwyafrif mawr yr etholwyr o offeiriaid. Pe buasai yr offeiriaid wedi cael eu ffordd ni fyddem ni yn mwynhau y breintiau gwladol a chrefyddol ardderchog ag sydd yn ein meddiant heddyw. Gwnaethant eu goreu yn erbyn Mesur Diwygiad 1832, yn erbyn agor y Prif Ysgolion i Annghydffurfwyr, yn erbyn dyddimu y dreth eglwys, yn erbyn agor ein mynwentydd i Annghydffurfwyr, yn erbyn estyn yr etholfraint i'r gweithiwr, a hwy sydd etto yn rheng flaenaf y sawl a wrthodant degwch a chyfiawnder i'r Gwyddel. Ni cheir, dichon, well enghraifft o wir gymmeriad yr offeiriaid nag yn amser dyddimiad Treth yr Yd. Tuedd Deddfau yr Yd oedd ychwanegu at werth ystad y gwr cyfoethog trwy godi pris torth y dyn tlawd. Ychydig, o bossibl, a all gofio yn awr y cyni ofnadwy a ddygwyd trwy y deddfau hyn ar y bobl. Yr oedd dros ugain mil o bersonau yn Leeds nad oedd eu hur wythnosol ond prin swllt yr un. Yn Paisley, yr oedd yn agos i chwarter y boblogaeth ar dranc newyn. Dywed un gweinidog iddo ymweled á dros ddau cant a hanner o deuluoedd mewn un rhan o Manchester, yn cynnwys dros fil o bersonau, nad oedd eu hur wythnosol, ar y cyfartaledd, ond saith a dimai yr un. Tra yr oedd miliynau yn y cyflwr gresynys hwn, yr oedd y dreth am ddwyn gwenith i fewn i'r wlad hon yn £1 4s. 8c. y cwarter; ar geirch yn 13s. 9c.; ar haidd yn 10s. 10c., ac ar rug yn 14s. y cwarter.

Ond pan sefydlwyd y gymdeithas odidog gan Richard Cobden, John Bright, a Charles Villiers, i ddyddimu y deddfau hyn, pa help a gawsant yn eu hanturiaeth gan yr offeiriaid? Dim, neu nesaf i ddim. Pan oedd y wlad yn y cyflwr a nodasom, darfu i arweinwyr y gymdeithas appelio am help gweinidogion crefydd, i *brotestio* yn erbyn Efengyl, yn erbyn deddfau ag oeddynt yn elyniaethus i wir fuddiannau y genedl. Gwahoddasant bregethwyr o bob enwad ac offeiriaid i ymgyfarfod mewn cynadledd yn Manchester. Derbyniodd 650 o bregethwyr y gwahoddiad, a daethant o bob cwr o'r wlad i ddweyd hanes prudd am y newyn tost oedd yn difa'r bobl. Faint o honynt oedd yn offeiriaid

yr Eglwys Sefydledig? Dim ond un—un dyn, y Parch. Thomas Spencer, o Bath! "Yn mhlith yr anffyddlon, dim ond efe yn ffyddlon." Pa ryfedd fod y bobl yn teimlo yn anfoddlon cael eu degymu i gynnal y fath ddosparth?

AT EIN HYSGOLION SUL YN SIR ABERTEIFI.

Y mae y cyfnewidiadau canlynol wedi eu gwneyd yn y trefniadau ar gyfer yr arholiad mewn cyssylltiad a'n Hysgolion Sul yn Sir Aberteifi:—(1) Cynnelir yr arholiad ar y 19eg o Ebrill yn y Cwrtnewydd. (2) Enwau yr ymgeiswyr i fod yn llaw yr Ysgrifenydd erbyn y 1af o Ebrill. (3) Arholir yn hanes Abraham, Isaac a Jacob, hyd farwolaeth Isaac. (4) Arholir yn y ddwy bennod gyntaf o *Bannau Ffydd*. Gobeithio y cymmerir y mater i fyny o ddifrif yn ein hysgolion, fel y gellir gwneyd yr arholiad cyntaf yn un llwyddiannus.

D. EVANS, YSG.

CYNLLUN DR. MARTINEAU.

Yn ol yr adroddiadau sydd yn ymddangos o wythnos i wythnos yn ein cyhoeddiadau, ymddengys mai ychydig dderbyniad sydd i'r cynllun hwn fel ag y mae. Y mae y rhan fwyaf o'n heglwysi yn Lloegr, a rhai yn Nghymru, wedi pasio penderfyniadau, y rhai sydd oll yn anffafriol. Ond y mae yr unfrydedd cyffredinol sydd yn cael ei ddangos yn mhob man gyda golwg ar yr angenrheidrwydd sydd am welliant ar y drefn bresenol yn arwydd galonogol iawn. Y mae yn ddiamheu fod eisieu gwelliant; ond, ai nid gwell fyddai ceisio dadblygu a pherffeithio y cymdeithasau sydd yn awr mewn bodolaeth, yn hytrach na cheisio gosod i fyny drefniadau newydd? Y mae gyda ni yn Nghymru gymdeithas, ond fel y mae yn bresenol, nid yw yn amgen llythyren farw; a phe buasai hon yn cael ei hadfywio, nid oes amheuaeth na fyddai yn gyfrwng rhagorol i ledaenu ein hegwyddorion a chryfhau ein hachosion.

MR. W. O'BRIEN.

O holl ymddygiadau creulawn y Llywodraeth bresenol at y blaid Wyddelig, nid oes un yn fwy tebyg o ddwyn gwarth a dinystr ar ei phen na'i gwaith yn erlid y gwladgarwr twymgalon sydd a'i enw uwch ben y nodyn hwn. Nid ydys yn gwybod am ddim yn fwy creulawn wedi dygwydd o fewn y ganrif bresenol. A pha beth, atolwg, oedd ei drosedd? A ydyw yn gymmaint o adyn fel y mae yn rhaid ei gauad yn y carchar gyda gwehilion cymdeithas? Nid yw wedi gwneyd dim ond amddiffyn tenantiaid tlawd rhag trais a gormes tir-feddiannwyr

creulawn a dideimlad. Dyna'r oll oedd ei bechod, ac etto, mae yn y carchar heddyw. Ac y mae y peth yn waeth fyth pan y meddyliom fod y cyfrifoldeb am hyn yn gorphwys ar y Mri. Chamberlain, Hartington, a'u canlynwyr. Pa hyd y cedwir y dynion hyn sydd yn sathru ar iawnderau ac ar ryddid deiliaid ein cyd-genedl i lywyddu arnom?

ARGUS.

ESGOBAETH ST. ASAPH.

Y mae'r esgobaeth uchod wedi cael ei chynnyg i'r Parch. A. G. Edwards, Ficer Caerfyrddin; ac nid oes amheuaeth na rydd yr appwyntiad foddlonrwydd cyffredinol i bob dosparth. Y mae Mr. Edwards yn ysgolor aeddfed, yn ddyn o gydymdeimlad eang, ac o yni a gweithgarwch mawr. Er's ychydig flynyddau yn ol bu dadl frwd rhyngddo a'r Dr. Vance Smith ar dudalenau un o newyddiaduron Caerfyrddin. Y pwnc mewn dadl oedd, Credo St. Athanasius, os y cofiaf yn iawn. Yr oedd yspryd rhyddfrydig yn cael ei arddangos gan y ddau yn ystod yr ymdrafodaeth. Dymunwn i Mr. Edwards hir oes a llwyddiant yn ei gylch newydd.

AMICUS.

A JINGO SYDD DDUW!

Nage! Nage!! Gwaedd Doriaidd ydyw hon. Y Tori sydd mewn *power* yn awr, ac y mae awydd arno gael gosod ychydig fri ar y fyddin, fel y gallo ei frodyr ef gael *chance* am *promotion*. Ti, ddyn ieuanc, a oes awydd mawr arnat i roddi dy hun yn fwyd i'r powdwr a'r gwn am ryw 1s. 1½c. y dydd? A ydwyt yn credu mai peth gogoneddus iawn ydyw cot goch? Druan o honot! A thi ei allan i ennill clodforedd drwy ladd dy frodyr? Ai dyna yw dy *idea* am fawredd? Gwir fod Wolseley yn clodfori y cleddyf a'r gwn, a thybia mai y gelfyddyd filwrol ydyw yr odidocaf allan, ac yr oedd yn syn genyf y gallai yr Undebwr hwnw, y Dr. Dale, wrando y fath ffiloreg heb yngan gair o wrthwynebiad. Beth! a wnawn ni gredu mai Jingo sydd Dduw? Ffwrdd a'r fath ynfydrwydd! Nid rhyfel ydyw sylfaen crefydd a moesoldeb. O nage!

TRAIS.

Na, nid ydyw llywodraeth trais drosodd etto, ac yn rhyfedd genyf fi, y mae rhai Cymry yn cydymdeimlo a'r treiswyr ac nid a'r rhai â dreisir ganddynt. Hawyr bach! Beth sydd wedi dyfod drosom? A ydyw deddfau tragwyddol cyfiawnder a chwareu teg yn llacau yn eu gofynion pan fyddo trais yn cael ei wneuthur ar rai nad ydynt efallai o'n cenedl ni? A ydyw yn iawn i'r Rwssiad orthrymu yr Iuddew ac

i'r Sais orthrymu y Gwyddel? Beth nesaf? A ydym yn sicr na chawn fyw i weled yr un trais yn cael ei gyfleu at glwyfau tybiedig y Cymro? O yspryd gwaradwyddus! yr un yn gywir yw ag a osododd dan yn y ffagodau yn Smithfield. Diolch fod *tide* cyfiawnder a chydymdeimlad yn codi yn raddol. Gobeithiwn a gweddiwn nad yw yr adeg ddim yn mhell pan yr hyrddir galluoedd y tywyllwch—i'w lle eu hun.

PABYDDIAETH YN YR EGLWYS.

E fyn yr Eglwys ei hunan i ni gredu mai hi yn ei hagwedd sefydledig ydyw y gwrthglawdd mawr yn cadw Pabyddiaeth yn ol rhag myned fel diluw dros yr holl wlad! Hyhi! druan, mae hi wedi ei rhidyllo *through and through* gan Babyddiaeth. Oddiwrthi hi yn fwy nag oddiwrth un enwad arall y mae Pabyddiaeth yn derbyn ychwanegiadau parhaus. Am beth yr ydys yn erlyn Esgob Lincoln yn bresenol? Y gwir yw, yr adran gatholig yw yr un fwyaf poblogaidd a mwyaf gweithgar heddyw yn yr Eglwys. Myn rhai i ni gydymdeimlo a'r Esgob; gan annghofio fod yr Esgob yn troseddu deddfau yr Eglwys sydd yn ei gynnal. Os yw yr Esgob am ryddid, deued allan, ac fe gaiff ryddid, ac addawn iddo ein cydymdeimlad hefyd. Myn ei fod yn gwasanaethu ei gydwybod. Rhyw gydwybod rhyfedd sydd yn ei arwain i droseddu deddfau ei Eglwys ei hunan! Mae yn cael ei dalu yn dda am wasanaethu yr Eglwys, ac nid iawn iddo ddefnyddio ei chyfoeth i'w thrywanu dan y bummed ais. Dadsefydler yr Eglwys.

SANT DEWI A'I WYL.

Pe gellid iawn bontio canrifoedd y gorphenol, a iawn olrain eu nodweddion, ceid hwy yn amrywio yn fawr rhwng y presenol ag adeg marwolaeth Dewi Sant yn 601, os yn 601 y bu farw; a phe gellid iawn ddarnodi gwahanol nodweddion a character y Dewi hwnw, yr wyf yn tybied y ceid ef yn ddyn tra gwahanol i'r hyn yw yn bresenol yn marn amlafrif y cyhoedd. Nid wyf ar fedr amheu ei dduwioldeb na'i wladgarwch, ac yr wyf yn addef fod y rhai hyn yn rhinweddau pwysig, ac yn deilwng o goffadwriaeth y Cymry; ond y mae y fath gwmmwl o dywyllwch yn gorwedd dros hanes personol Dewi, fel nas gwyddom ond nesaf i ddim am dano, yn mhellach na'i fod mewn parch mawr gan ein hen deidiau. Nid wyf yn credu hanner y chwedlau y mae ei edmygwyr wedi eu dyfeisio er dyrchafu ei glod. Nid oes ond y gwir a rydd wir ddyrchafiad i ddyn. Tebyg fod Dewi yn onest, yn gydwybodol, yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau, ac yr oedd i'w ganmol am fod yn ffyddlon i'r goreu a adwaenai; ond pabyddol yw hanes Dewi, os nad pabydd oedd ef ei hun, ac yn y ddadl fawr ar Belagiaeth, er i

Dewi lwyddo yn ei ymosodiadau, y gwirionedd a ddyoddefodd. Yn grefyddol, safwn ni heddyw yn nes, dybygaf, i Pelagius nag i Dewi.

PELAGIUS.

Nid oes dim sicrwydd mai Cymro oedd Dewi Sant; ond y mae yn bossibl, ac am Pelagius, y mae llawer o dywyllwch yn gorwedd ar ei hanes yntau. Yr ydys wedi bod yn yr arferiad o'i bardduo ef gan ffyddloniaid yr Eglwys, gan annghofio y possiblrwydd fod Pelagius yn yr iawn. Gwendid yr iawn-ffyddwr yw tyb ry benderfynol ei fod ef yn sicr o fod yn yr iawn—ei fod ef yn wir yn anffaeledig, a'i wrthwynebwr yn *heretic* am ei fod yn beiddio barnu drosto ei hunan. Tybir mai Morgan oedd enw cyntefig Pelagius, a'i fod yntau wedi ei gyfieithu i'r Groeg. Yr oedd yn byw o flaen Dewi, a chafodd ei syniadau dderbyniad helaeth ar un amser. Awgrymir mai "genedigol o'r môr" yw ystyr Morgan. Tebycach mai Mor*gant* neu "gant y mor," ymyl y mor, yw y gair. Yr oedd yn Abad Bangor, ac aeth i Rufain tua 400, a'i gyfaill Celestius gydag ef. Aeth i Jerusalem, a chafodd roesaw mawr gan yr esgob yno. Dywedir mai ei brif wrthwynebydd oedd Awstin. Ni chafodd Pelagius ei wneuthur yn sant gan Eglwys Rhufain, ac etto mae'n bossibl ei fod yn gymmaint sant yn ngolwg Duw a phe byddai Rhufain wedi ei osod ar Galaniadar y Seintiau. Ei bechod mawr oedd barnu drosto ei hunan; nid yw y Pabyddion o un sect yn foddlon i ddyn wneuthur hyny, oddieithr iddo farnu fel mae'r Eglwys yn barnu. Ni fynai gredu gydag Awstin yn athrawiaeth boblogaidd y codwm yn Adda, na bod dyn yn gwbl lygredig mewn rheswm ac ewyllys, ac heb allu i un daioni. Elai at Grist, a barnai drosto ei hunan.

WEDI BLAENU!

Pan y rhana'r ddystaw rwyf
Imi'r ddystaw afon,
Ac ar lan dragwyddol wyf—
Glan yr anfarwolion;
Ai yn ofer geisiaf fi
Fy anwyliaid hwnt i'r lli'?

'Gaiff y rhwymau wnant i mi
Deimlo yn anfarwol
Syrthio megys deilen grin
Wrth y porth tragwyddol?
Caiff goreubeth Duw'n ddilai
Dyfu byth a byth barhau.

'R hwn a blanodd ddynol serch
Yn y galon ddynol,
Gan roi fyth i'r enaid derch
Adgof anniflanol,
G'lyma'r cwlwm maes o law
'N dynach pan y cwrddwn draw.

Felly, nid wy'n ofni myn'd
Hwnt i'r afon dawel;
Adwaen wyf yn Angeu, ffrynd,
Ddwg fi fel ar awel
At y lan tuhwnt i'r lli',
Lle mae ceraint fyrdd i mi.

Rhagfyr, 1888. LUCY LARCOM, 1858.

Y SAITH DIWRNOD.

Pwnc mawr gan rai heddyw yw, A gawn ni roddi y saith diwrnod i fasnach? Myn rhai ei bod yn bryd i ni dori yn rhydd oddiwrth yr hyn a alwant yn gaethiwed ofergoeliaeth. Cyhoeddir newyddiadur yn Llundain saith diwrnod o'r wythnos, ac y mae hyny yn creu twrw nid bychan. Nid ydym yn credu y llwyddir felly i fydoli *(secularise)* y Sul yn hir; y mae yr angen am orphwys yn seiliedig yn ein natur, ac wedi ei osod yno gan Ragluniaeth ddoeth. O'r Amerig y daeth y syniad yma yn awr, ac o'r braidd yr wyf yn credu y deuwn ni byth yn addfed i aberthu ein Dydd Gorphwys ar allor Mammon. Gwir fod Mammon a Baccws yn fawr eu dylanwad y dyddiau hyn; ond fe egyr dynion eu llygaid *by and bye*, a deuant i ddeall natur y gwrthddrychau y maent wedi eu dodi yn eu mynwes—mai seirff ydynt â cholynau i frathu ganddynt.

Manion a Hanesion.

Dywedir fod yr ystadegaeth ganlynol yn dynodi grym Ymneilduaeth yn Nghymru a Lloegr yn lled agos:—Addoldai, 47,000; eisteddleoedd, rhwng 15 a 16,000,000; gweinidogion, 38,000; swyddogion ereill, 170,000; cymmunwyr, dros 3,000,000. Gwerir mewn cyssylltiad â'r sefydliadau hyn dros £16,000,000 bôb blwyddyn.

ABERDAR.—Treuliwyd Nadolig hapus iawn yn yr H.D.C. Perfformiwyd cantata *St. Paul* yn y boreu. Mr. Evan Griffiths yn y gadair, a Mr. Fisher Jones yn arwain. Cafwyd gwyl de yn y prydnawn, ac yn yr hwyr, *Christmas Tree*, oddiar yr hwn y dosparthwyd dros 100 o wobrwyon i ddeiliaid yr Ysgol Sul. Cafodd rhai wobrwyon arbenig am *attendance* rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Y mae y Parch. T. B. Evans, brawd y Parch. George Evans, wedi ei sefydlu yn weinidog ar y gynnulleidfa Undodaidd yn College Chapel, Llundain. Dymunwn iddo bob llwyddiant.

Y mae Mr. Henry Tate, L'erpwl, wedi rhoddi swm o arian er sefydlu un neu

ddwy ysgoloriaeth mewn cyssylltiad â'r *University* yn y dref hono, er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Charles Beard.

Yn ddiweddar, bu farw yn nghymmydogaeth Abertawe un o wroniaid brwydr fawr Waterloo. Yr oedd yn 112 oed.

Y mae yn debygol y symmudir *Manchester New College* cyn diwedd y flwyddyn i Oxford. Ond y mae cryn dipyn o wahaniaeth barn yn bodoli ar y mater yn mysg ein brodyr yn Lloegr.

Y mae pump Undodwr yn aelodau o Gynghor Sirol Sir Aberteifi.

LLANDYSSUL.—Yr ydym yn cael ar ddeall fod y Parch. W. J. Davies, Dowlais, wedi cael gwahoddiad i fod yn olynydd i'r Parch. W. James, B.A.

Ebai un Gwyddel wrth y llall, yr hwn oedd wedi cymmeryd yr ardystiad, "Ac yr ydych wedi arwyddnodi yr ardystiad dirwestol, ydych ch'i?" "Ydw wir, a does arna I ddim cywilydd am hyny chwaith." "Ai ni ddywedodd Paul wrth Timotheus am gym'ryd ychydig win er mwyn ei gylla?" "Do," ebai y dirwestwr, "ond nid Timotheus yw'n henw I, a does dim y mater ar y nghylla I."

Mae yn drist meddwl am rifedi y bobl ieuainc sydd yn cymmeryd i fyny y bibell a'r dybacco. Nis gall fod dau feddwl am y niwed a ddeillia iddynt hwy o leiaf drwy arferiad o'r fath, ac fe ddylai rhieni wneuthur a allont yn mhob modd i osod attaliad arnynt cyn ffurfio yr arferiad.

Elai yr Iesu oddiamgylch yn gwneuthur daioni. Pwy a feiddia ddywedyd fod mewn bywyd un amcan gwell?

Dichon y barna rhai, ac ni fyddant yn mhell o'u lle, mai call oedd yr hen wr a ddywedodd pa ddydd:—"Wrth fwrw golwg yn ol dros yrfa bywyd, yr wyf yn cael fy mod bob amser dan lywodraeth menyw. Yn blentyn, yr oeddwn dan lywodraeth fy mam; pan briodais, cefais fod yn rhaid i mi wneuthur fel y mynai fy ngwraig; ac yn awr, yr wyf yn cael nad wyf yn annybynol ar orchymynion fy merched." "Ac etto, ymddangoswch heb fod un tipyn gwaeth dan eu llywodraeth ormesol" ebe'r ferch ieuanc oedd yn gwrando. "Eithaf gwir," ebe fe, "a phe cyffeswn y cwbl, byddai rhaid i mi ddywedyd, pe buaswn wedi dylyn eu cynghor bob amser, buaswn wedi gwneuthur llai o gamsyniadau yn fy mywyd."

Rieni, dysgwch emynau i'ch plant bach. Nis gellwch ddirnad y daioni a ddichon ddeilliaw oddiwrth hyny.

Byddai yn dda pe gallai pob plentyn ddysgu rhyw grefft; hyd y nod os yn gyfoethog, ni wyr neb na all fod angen am rywbeth tebyg ryw ddiwrnod. Bydd hefyd yn iechyd i allu troi y llaw at ryw orchwyl yn achlysurol. Dywedir fod Arlywydd Ffrainc yn saer *first class*.

Dywedir fod poblogaeth y ddaear yn 1,435,000,000, a rhifedi'r ieithoedd a lefarir yn 3,064, a rhifedi'r crefyddau yn 1,100. Bernir fod 1,000,000,000 heb fod yn Gristnogion.

Yr oedd y morgrugyn a fu farw gyda Syr John Lubbock Awst 8, 1888, yn agos 15 mlwydd oed

Mae Mr. Spurgeon yn achwyn fod yr Eglwys "yn chwareu ag Undodiaeth, ac y bydd iddi syrthio dros y dibyn cyn hir; ac etto, nad yw yr arweinwyr yn hidio dim." Dichon mai syrthio *i fyny* a wnelai wrth wneuthur hyny, ac y byddai wedi'n yn fwy cyfoethog nag erioed.

Mewn llyfr diweddar o eiddo Dr. Shedd rhoddir dau dudalen i ddesgrifio'r nefoedd ac 88 i ddesgrifio uffern!

Nid oes angen dim rhagor na'r syniad a roddes yr Iesu am Dduw i'n sicrhau ni na osodir un rhwystr ar un enaid i ddychwelyd pan fyno; nas gall fod un adeg yn y tragwyddoldeb pan na fydd y Breichiau Tragwyddol ar led agored i bob afradlon tlawd ac edifeiriol fyddo'n awyddu dychwelyd o wlad y cibau a'r moch.

LLWYNRHYDOWEN. — Cynnaliwyd eisteddfod flynyddol y Llwyn eleni ar y 15fed o Chwefror, pan y gorlanwyd yr Hen Gapel. Y Cadben Davies, Brownhill, oedd yn y gadair, a'r Parch. W. E. Jeffreys, Saron, yn arwain. Mr. Rees, Bow Street, ydoedd beirniad y gerddoriaeth; a'r Parch. W. Eilir Evans, Sant Ioan, y cyfansoddiadau. Rhanwyd y brif wobr rhwng corau y Llwyn a'r Bwlch, ac ennillodd y blaenaf y dorch iddo ei hun am yr ail ddarn. Yn nghystadleuaeth corau y plant dyfarnwyd y Llwyn a'r Cwrtnewydd yn gydfuddugol. Trodd y cyfarfod allan yn llwyddiannus yn mhob ystyr. Clywais fod yn mryd y pwyllgor i gyhoeddi y cyfansoddiadau buddugol yn llyfryn bychan. Bydd hyn yn gam yn y iawn gyfeiriad. Teilynga y pwyllgor ganmoliaeth uchel am y modd deheuig y dygwyd yn mlaen holl weithred-

iadau y cyfarfod. Gobeithiwn y rhydd ein gweinidogion bob cymhorth a chefnogaeth iddynt er hyrwyddo llwyddiant yr eisteddfod etto yn y dyfodol.

PRIODAS.—Dydd Sadwrn, Ionawr 26, yn Eglwys Sant Ioan, Clydach, unwyd mewn glân briodas Mr. D. J. Morgan, Trebanos, a Miss Margaret W. Davies, merch ieuengaf yr hen dad parchus, William Dafydd, Trebanos, yr hwn fu am flynyddau meithion yn un o golofnau cadarnaf yr achos yn Ngellionen. Hir oes a phob dyddanwch fyddo rhan y pâr ieuanc yw dymuniad—*J. W.*

Marwgofion.

Tachwedd 9, 1888, ar ol cystudd hir a thrwm, yn 70 oed, Sarah, anwyl briod William Williams, Pantyrhwch, ger Capelygroes. Merch ydoedd yr ymadawedig i'r diweddar James Lewis, Sychbant, Llanwenog, yr hwn a fu yn hir yn ngwasanaeth yr hen Jones o'r Neuaddfawr gynt, fel ei gelwid, enwog iawn fel *bone-setter* drwy yr holl wlad. Yr oedd James Lewis ei hunan yn lled fedrus yn y gelfyddyd hon, yn gystal â'r diweddar David Daniel, Caeglas, yr hwn hefyd oedd wedi bod yn ddysgybl i Mr. Jones am flynyddau meithion. Claddwyd yr ymadawedig y dydd Mawrth canlynol yn Capelygroes. Pregethwyd y bregeth angladdol y Sul ar ol hyny yn y capel uchod gan y Parch. T. T. Na fydded i'm hen gyfaill William alaru yn ormodol yn ei amddifadrwydd. Mae pob peth yn iawn—ïe, a phob peth yn y modd goreu.

Dydd Sul, Tachwedd 25, 1888, yn 68 oed, David Lewis, *stonecutter*, ger Rhydowen, Llandyssul. Claddwyd ef yn Pantdefaid y dydd Mercher canlynol, a phregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Nid oedd yr ymadawedig yn briod, eithr byw oedd gyda'i chwaer, Mary Lewis, yr hon hefyd sydd yn ferch weddw ac mewn gwth o oedran. Yn amser ysgol Pontshan gynt, yr oeddynt yn llettya myfyrwyr a ddoent iddi o bob cyfeiriad, ac felly y mae ugeiniau lawer o'r cyfryw yn cofio am danynt hyd y dydd heddyw yn mhob parth o'r byd. Yr oedd y cyfaill David Lewis yn ysgrifenydd i gynnulleidfa Pantdefaid ac yn aelod o honi. Bu yn un o'r prif gantorion yn y lle tra y bu yn abl i gyrchu yno. Ystyrid ef yn ddiniwed iawn gan bawb, a pherchid ef yn fawr yn ei gymmydogaeth. Heddwch i'w lwch, a phob daioni i'w chwaer unig sydd ar ol.

Tachwedd 28, yn bum' mis oed, Rachel, maban John Jones a'i briod, 2, Cilgwyn Road, Llandyssul. Claddwyd y fechan yn Pantdefaid y dydd Sadwrn canlynol. Gwasanaethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Ragfyr 11, 1888, yn 48 oed, Mary, priod Isaac Evans, Ffynnonwen, Llandyssul. Claddwyd hi yn Pantdefaid y dydd Gwener ar ol hyny, a phregethodd y Parch. T.T. yn y capel. Gadawodd briod, mab a merch, brawd, a dwy chwaer, i alaru ar ei hol.

Ionawr 7, yn 67 oed, Mrs. A. S. Davies, gweddw y diweddar William Saunders Davies, Commercial House, Felinfach, ger Ystrad. Yr oedd yn hanu o hen deulu Undodaidd parchus. Yr oedd yn ferch i'r diweddar David Evans, Castellcenddu, cyn hyny o Lloydjack, lle y cafodd hi ei geni a'i magu. Yr oedd ei thad yn nai i David Jenkin Rees o'r un lle, trwy ymdrechiadau yr hwn yn benaf y sefydlwyd achos Undodaidd yn Ystrad (yn awr Rhydygwin). Nid oedd er ys blynyddoedd yn myned fawr o'r tŷ, o herwydd, yn benaf, ei bod yn methu clywed. Teimlai yn flin iawn o herwydd y diffyg hwn. Er nad oedd yn dyfod i'r addoliad cyhoeddus, nid oedd heb deimlo *interest* yn yr achos yn Rhydygwin. Cymmerai ran fel gwragedd ereill yn narpariaeth gwledd y tê a'r bara brith i blant yr Ysgol Sul, a rhoddai hyfrydwch i'r ferch fod wrth y bwrdd i wasanaethu ar yr achlysur. Gadawodd fab a merch mewn galar a hiraeth ar ol mam dyner a gofalus am danynt; dau frawd, heblaw perthynasau ereill a llawer o gyfeillion. Ar ddydd yr angladd, daeth lluaws yn nghyd i ddangos eu parch a'u cydymdeimlad â'r plant yn eu galar. Ar yr

achlysur gweinyddwyd yn y tŷ gan Wm. Rees, Rhydygwin, ac wrth y drws gan y Parch. Williams, Rhydybont. Claddwyd hi yn yr un bedd a'i phriod yn mynwent Ystrad. Na fydded i'r plant alaru fel rhai heb obaith.

Ionawr 9, 1889, yn 75 oed, Jane Jones, Pantyronen, ger Capelygroes. Claddwyd hi yn mynwent y capel uchod y dydd Gwener canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. ar yr achlysur. Yr oedd yr hen chwaer hon wedi bod yn gwaelu am flynyddoedd lawer, ond bu yn amyneddgar a gostyngedig yn yspaid ei chystudd maith. Gadawodd dri o blant ac un chwaer i alaru ar ei hol.

Ionawr 15, 1889, yn 73 oed, Elizabeth, priod Evan Evans, Tyrhys, ger Llwynrhydowen. Claddwyd hi yn mynwent y capel hwn y dydd Iau canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. Bydded i'w phriod oedranus a'i phlant fyw mewn gobaith a sicrwydd ffydd ar ei hol.

Ion. 20, Anne Nicholas, o Benyrheolgerryg, Merthyr, yn 68 oed. Yr oedd yr hen chwaer ymadawedig yn hanu o deulu enwog yn hanes Undodiaeth yn nghymmydogaeth Merthyr. Yr oedd eu brodyr John Jones, &c., yn gantorion gwych, ac yn ddefnyddiol dros ben fel y cyfryw yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Cefn. Yr oedd hefyd yn gyfnither i'r diweddar fardd Cynonwyson. Cyrchodd hithau tra y gallodd i'r Hen-Dy-Cwrdd, lle yr oedd yn aelod dichlynaidd; a hi, digon tebyg, oedd yr olaf o'r ach ffyddlon y perthynai iddi. Y dydd Iau canlynol, claddwyd ei gweddillion yn mynwent yr H. D. C., pryd y gwasanaethodd y gweinidog. Caffed y plant sydd ar ol nerth i alaru yn obeithiol ar ol eu mam, a deuparth ei ffyddlondeb fyddo etto arnynt hwy.

Ionawr 30, yn Mountain Ash, Elizabeth, gweddw y diweddar Howell Evans, Toncoch, yn 63 oed, wedi cystudd maith, gan adael i alaru ar ei hol bedwar o blant —y ferch henaf wedi bod yn analluog i wneyd nemawr o ddim drosti ei hunan er pan ei ganed o gylch 30 mlynedd yn ol. Yn ol yr argoelion presenol, ni all yr adeg fod yn bell cyn y canlyna ei mam. Mae yn wrthddrych tosturi a chydymdeimlad yn wir. Y Llun canlynol daeth lluaws o berthynasau, ceraint, a chyfeillion yn nghyd i angladd y fam; ac wedi i'r Parch. E. W. Lloyd weinyddu yn y ty, hebryngwyd ei gweddillion at ymyl *vault* y teulu yn mynwent hen Eglwys Aberdar. Tangnefedd Duw fyddo yn eiddo ei phlant amddifaid.

Chwefror 6, 1889, yn 3 mis oed, Evan, maban John ac Elizabeth Jones, Pledrog, ger Bwlchyfadfa. Claddwyd y bychan yn mynwent y Bwlch y dydd Sadwrn canlynol. Pregethodd y Parch. T.T. yn y capel.

Chwefror 7, yn 80 oed, Mrs. Margaret Davies, Dolbwba, ger Talsarn, gweddw y diweddar David Davies, dosparthwr YR YMOFYNYDD, a mam Thomas Davies, ein dosparthwr ffyddlon presenol yn y gymmydogaeth hon. Treuliodd ei blynyddoedd olaf dan bwys y dyddiau blin, mewn afiechyd mynych a gwendid parhaus. Er iddi gladdu ei phriod a phlant, ac un mab fyned i America tuag ugain mlynedd yn ol, gofalodd ei mab arall am dani fel na welodd eisieu dim o angenrheidiau bywyd, nac un tynerwch oedd yn ngallu gofal a chariad plentyn Cafodd hefyd weled y mab aeth i America wedi dychwelyd i dalu ymweliad â hi yn iach a chysurus cyn iddi farw, a chafodd yntau y fraint, er ei bod yn anhyfryd, o fod yn ei hangladd. Bu yn aelod ffyddlawn am lawer o flynyddoedd yn Rhydygwin, lle yr arferai fyned i addoli tra y gallodd. Ddydd ei hangladd gwasanaethodd W. Rees yn y ty, a John Davies, Alltyplaca, wrth y drws. Dygwyd hi gan dyrfa fawr o bobl ar draed a llawer mewn cerbydau ac ar geffylau i fynwent Ciliau, lle y mae gweddillion ei phriod a'i phlant wedi eu rhoddi i orphwys, a hithau yn awr yn eu hymyl. Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig. Cysuron yr iechydwriaeth a nerthont ac a ddyddanont ei meibion yn eu galar.

Chwef. 17, Jane Richards, Cefncoed, yn 96 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i Mr. William Richards, saer maen, yr hwn, yn nghyd â'i wraig ragorol, a fu yn aelod ffyddlon yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Cefn, a'r hwn sy'n adnabyddus i bawb Undodiaid a arferent gyrchu i'r Cefn. Nid oedd un afiechyd ar yr hen wraig, onid henaint. Dydd Mercher canlynol, aethpwyd â'i gweddillion i fynwent henafol y Faenor. Ni wyddid yn iawn ei hoedran; ond tybid ei bod yn henach na'r ffigwr uchod oedd ar glawr yr arch.

Jenkin Howell, Argraffydd, Aberdar.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past.*"

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hysbys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder.* Seeing is believing."

"Your Pills astonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH, will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.